**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS
Y Llywydd
Cadeirydd y Pwyllgor Busnes

13 Rhagfyr 2022

Annwyl Lywydd

Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru)

Diolch am eich llythyr dyddiedig 6 Rhagfyr ynghylch cynnal gwaith craffu cyflym ar y Bil uchod.

Dymunaf hefyd dynnu eich sylw at yr ymateb a gawsom gan Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd, sy'n ymateb i'n llythyr dyddiedig 25 Tachwedd 2022 ac yr oeddem wedi anfon copi ohono atoch ar yr un dyddiad.

Nid yw'r llythyr yn mynd i'r afael yn ddigonol â'r cwestiynau a godwyd gennym ac nid yw'n lleddfu ein pryderon ynghylch y gwaith craffu cyflym ar y Bil hwn.

Rydym i fod i gyfarfod yr wythnos hon i drafod y weithdrefn ar gyfer Memoranda Cydsyniad Offeryn Statudol ac rwyf yn cadarnhau yr hoffwn hefyd godi'r mater o graffu'n gyflym ar Filiau.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

Senedd Cymru
Welsh Parliament